# Cynllun Cydnerthedd Cymunedol am Argyfwng

# Canllaw wedi'i baratoi gan Gyngor Gwynedd

Mae Uned Cynllunio Argyfwng Cyngor Gwynedd yn cydnabod defnyddio gwaith wedi'i gynhyrchu gan Swyddfa'r Cabinet a Chyngor Sir Caerloyw a Chyngor Sir Dorset wrth baratoi'r ddogfen hon.

Hydref 2013
BJ

## CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cydnerthu Cymunedol** | 3 |
| 2 | **Gosod y cyd-destun** | 3 |
| 3 | **Cynllun Argyfwng y Gymuned** | 6 |
| 4 | **Adnabod eich cymuned** | 7 |
| 5 | **Adeiladu ar strwythurau cyfredol** | 7 |
| 6 | **Grwpiau Argyfwng y Gymuned** | 8 |
| 7 | **Casglu Gwybodaeth** | 9 |
| | Deddf Diogelu Data 1998 | 9 |
| | Manylion cyswllt pwysig | 9 |
| | Defnyddio gwybodaeth leol | 10 |
| | Pobl fregus | 10 |
| 8 | **Adnabod a pharatoi ar gyfer risgiau** | 11 |
| 9 | **Sgiliau ac adnoddau cymunedol** | 12 |
| | Gwirfoddolwyr | 12 |
| | Man Cyfarfod | 13 |
| | Peiriannau, offer a chyfarpar | 13 |
| | Cerbydau a chychod | 13 |
| | Cyflenwadau | 13 |
| 10 | **Yswiriant a Iechyd a Diogelwch** | 14 |
| 11 | **Darparu arian ac adnoddau** | 14 |
| 12 | **Nodweddion allweddol cymuned gydnerth** | 16 |
| 13 | **Cydnerthu cymunedol llwyddiannus** | 17 |
| 14 | **Pa wybodaeth arall sydd ar gael** | 18 |
| 15 | **Templed Cynllun Argyfwng y Gymuned** | 19 |

# CYDNERTHU CYMUNEDOL

## Gosod y cyd-destun

Gall argyfyngau arwain at ganlyniadau trychinebus. Dim ond rhai enghreifftiau yw colli cartrefi, eiddo gwerthfawr ac anwyliaid o’r modd y gallwn gael ein heffeithio gan argyfyngau. Dylai straen emosiynol a chorfforol y digwyddiadau hyn gael eu gwerthfawrogi’n llawn yn y tymor byr a’r tymor hir. Bydd pob unigolyn a gaiff ei effeithio gan argyfwng yn gwella yn ei ffordd a’i amser ei hun.

Mae enghreifftiau o argyfyngau posib yn cynnwys llifogydd difrifol, eira trwm, dim ynni am gyfnod maith, digwyddiadau diwydiannol, damweiniau trên, terfysgoedd ac ati.

Yn ystod haf 2007 dioddefodd Prydain lifogydd difrifol. Roedd prinder dŵr yn swydd Gaerloyw o ganlyniad i fethiant gwaith trin dŵr a effeithiodd ar ardaloedd eang o’r sir. Yr oedd yn anodd i wasanaethau brys, Awdurdodau Lleol, asiantaethau gwirfoddol a’r cwmnïau cyfleustodau ymateb yn gyflym i bob cymuned a effeithiwyd. Gwers a ddysgwyd o’r argyfwng oedd bod gan y cymunedau lleol rôl bwysig i’w chwarae wrth iddynt ddarparu gwybodaeth ar y sefyllfa gyfredol yn eu hardal, a darparu mesurau i liniaru’r effeithiau.

Yn ystod llifogydd Cumbria yn 2009, yn ogystal â gorlifo eiddo, collwyd nifer arwyddocaol o bontydd a seilweithiau eraill gan amharu ar deithio a symudiad yn y sir a bydd angen blynyddoedd i’w hailadeiladu.

Bu i stormydd glaw eithafol yn Nhachwedd 2012 achosi llifogydd ac aflonyddu cymunedau yn eang trwy Ogledd Cymru.

Efallai y bydd rhai yn cofio'r Storm Fawr a ddigwyddodd ym mis Hydref 1987. Yr oedd dwysedd y gwynt yn ystod y storm gyfwerth â grym corwynt. Achosodd y storm niwed sylweddol dros y mwyafrif o dde Lloegr, gan ddymchwel tua 15 miliwn o goed, (gan gynnwys chwech o’r saith coed derw enwog yn Sevenoaks,) gan

gau ffyrdd a rheilffyrdd a gadael difrod strwythurol eang i adeiladau. Gadawyd cannoedd o filoedd o bobl heb bŵer.

Bu storm fawr arall llai na thair blynedd yn ddiweddarach ym mis Ionawr 1990. Roedd nifer y cleifion, (-roedd y storm yn gyfrifol am 97 o farwolaethau,) yn llawer uwch na'r rhai a achoswyd gan Storm Fawr 1987 oherwydd digwyddodd y storm yn ystod y dydd. Achosodd y storm hon ddifrod helaeth gyda thua tair miliwn o goed yn cael eu dymchwel, problemau pŵer mewn dros 500,000 o gartrefi a llifogydd difrifol.

Efallai y cofiwch y problemau a gafwyd dros aeafau 2009/10 a 2010/11 oherwydd y tywydd oer am gyfnodau hir a'r eira trwm. Roedd gweithwyr ffordd yn gweithio'n galed i gadw'r priffyrdd ar agor a gwnaed teithio'n anodd gan fod stoc halen i drin y ffyrdd yn brin ac felly nid oedd modd rhoi sylw i lawer o ffyrdd bychan a ffyrdd ymyl. Cafodd effaith ar yr economi hefyd a bu'n fygythiad i gwmnïau nwyddau cyflenwi.

Yn nherfysgoedd Awst 2011 yn Llundain a dinasoedd eraill yn Lloegr, rhoddwyd nifer o fusnesau a chartrefi ar dân a'u dinistrio gan leiafrifoedd o'r gymuned. Bu'n rhaid drafftio lluoedd heddlu ychwanegol, ac roedd gofyn i'r gwasanaethau tân ac ambiwlans i ymateb i lawer mwy o alwadau na'r arfer. Ymatebodd nifer helaeth o bobl leol drwy gynorthwyo i lanhau'r llanast ac atal difrod anllad pellach.

Er bod gan y gwasanaethau ymateb brys drefniadau i gysylltu a chefnogi ei gilydd, y mae'n bosib y gallai argyfyngau ddigwydd yn y dyfodol ac y bydd ymateb brys i gymunedau penodol yn cael ei oedi, fel digwyddodd yn ystod y llifogydd wrth i gymunedau ddod yn ynysig. Mewn amgylchiadau fel hyn bydd yr ardaloedd a gaiff eu heffeithio yn manteisio o gael eu "Cynllun Argyfwng Cymunedol" eu hunain.

Er bod yr ewyllys da a'r blaengarwch a ddangosir ar y diwrnod yn ystod argyfwng yn hanfodol, mae pobl nawr yn cymryd camau yn unigol ac ar y cyd i baratoi eu hunain ymlaen llaw tuag at argyfwng. Maent yn defnyddio rhwydweithiau a strwythurau cymunedol cyfredol, neu'n ffurfio Grwpiau Argyfwng, ar gyfer eu cymuned leol er mwyn cysylltu ag ymatebwyr argyfwng lleol i sicrhau ymateb cydlynol. Mewn rhai ardaloedd mae pobl yn

cymryd cyfrifoldeb dros eu gwydnwch a'u hadferiad eu hunain i wella'r darpariaethau a pharatoadau sy'n cael eu gwneud rhag bod argyfwng yn digwydd, a phenderfynu sut mae adfer y sefyllfa a gwneud gwelliannau.

Er nad oes cyfrifoldeb statudol ar gymunedau i gynllunio neu ymateb i argyfyngau, y mae'n arfer da i adnabod peryglon a gwneud cynlluniau syml ar sut i ymateb iddynt ac felly'n hybu cydnerthedd cymunedol. Nid oes bwriad i bennu neu fesur beth a geir neu ddylai gael ei wneud yn lleol.

Mae'r arweiniad anstatudol sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf Argyfyngau Sifil (2004) yn darparu **diffiniad o argyfwng**, a ddefnyddir gan ymatebwyr argyfwng i'w harwain wrth gynllunio:

"*An event or situation which threatens serious damage to human welfare in a place in the United Kingdom; the environment of a place in the United Kingdom; or the security of the United Kingdom or of a place in the United Kingdom*."[1]

Fodd bynnag, mae cymunedau ac unigolion yn rhydd i benderfynu beth mae argyfwng yn olygu iddynt ac efallai cymryd camau a fydd er enghraifft yn eu gwneud un fwy parod i ganfod tân yn y cartref neu ddelio â salwch sydyn.

Rydym yn eich gwahodd i ystyried creu Cynllun Argyfwng i'ch Cymuned. Ceir canllawiau ar sut i wneud hyn yn y Community Emergency Plan Toolkit a gynhyrchwyd gan Swyddfa'r Cabinet [2], ac fe geir templed ar ddiwedd y ddogfen hon.

1 *Emergency Response and Recovery (2009), London, Cabinet Office*
2 *Community Emergency Plan Toolkit (March 2011), London, Cabinet* Office
www.cabinetoffice.gov.uk/content/community-resilience

# Cynllun Argyfwng y Gymuned

Bydd ymatebwyr argyfwng lleol yn blaenoriaethu'r rhai sydd gyda'r angen mwyaf bob amser yn ystod argyfwng, gan ffocysu eu hymdrechion ar achosion ble mae bywydau mewn perygl. Bydd amseroedd pan fydd unigolion a chymunedau'n cael eu heffeithio gan argyfwng ond nad ydynt mewn perygl uniongyrchol a bydd rhaid iddynt ofalu am eu hunain a'i gilydd am gyfnod nes y gellir darparu unrhyw gymorth allanol angenrheidiol.

Yn gyffredinol, nid oes gan aelodau'r gymuned yr hyfforddiant, yr offer, y grym na'r adnoddau i ymgymryd â swyddogaethau gwasanaethau brys. Dylai eu hymateb fod wedi'i gyfyngu i ofalu am les pobl y gymuned neu gynorthwyo i gynnal yr isadeiledd.

Nid oes disgwyl i'r cyhoedd cymryd risgiau diangen mewn argyfwng.

Mae templed strwythuredig wedi'i greu, "Cynllun Argyfwng y Cymuned" i gynorthwyo cymunedau i ddatblygu eu cynllun eu hunain a gellir ei addasu fel bo'r angen. Bydd cynhyrchu (ac ymarfer) eich cynllun yn gwella pa mor gydnerth yw eich cymuned.

Diffinnir **cydnerthedd** fel:

"*The capacity of an individual, community or system to adapt in order to sustain an acceptable level of function, structure, and identity"*[3]

Diffiniad o **gydnerthu cymunedol** yw:

"*Communities and individuals harnessing local resources and expertise to help themselves in an emergency, in a way that complements the response of the emergency services*."[4]

*3 Edwards C (2009) Resilient Nation, London, Demos*
*4 Civil Protection Lexicon (2010) www.cabinetoffice.gov.uk/cplexicon*

## Adnabod eich Cymuned

Dechreuwch drwy ystyried pwy yw eich cymuned a pha gymunedau yr ydych yn rhan ohonynt. Gan amlaf, pobl sy'n byw'n agos i'w gilydd (mewn tref, pentref, ward, ardal neu strydoedd), yw cymuned ond gallech gael eich cysylltu drwy gwlwm cyffredin arall megis eich gweithle, eich clwb cymdeithasol neu glwb chwaraeon, neu brofiad cyffredin.

Bydd yn gwneud synnwyr i feddwl am eich cymuned fel y bobl sy'n byw yn agos atoch, ond efallai yr hoffech ystyried siarad gyda phobl a chymunedau eraill a'u cynnwys hwy yn eich cynllunio ac efallai y bydd angen i chi weithio gyda'ch gilydd a chynorthwyo eich gilydd mewn argyfwng.

## Adeiladu ar Strwythurau Presennol

Mae cydnerthu cymunedol yn rhywbeth sydd eisoes yn cael ei wneud gan gymunedau, (os ydynt yn ymwybodol o hynny neu beidio). Nid pwrpas hyn yw creu neu adnabod rhwydwaith cymunedol newydd neu ymatebiad un tro i ddigwyddiad ond yn hytrach creu proses barhaus o ddefnyddio ac ehangu perthnasau presennol. Bydd hyn yn cynorthwyo'r grŵp i ddechrau ar ei waith.

Ystyriwch yr hyn sydd eisoes yn bodoli o'ch amgylch, gyda phwy yr ydych eisoes yn siarad a sut y gallech gydweithio cyn digwyddiad, yn ystod digwyddiad ac ar ôl digwyddiad. Gallwch edrych ar rwydweithiau cymunedol lleol cyfredol a grwpiau o fewn eich cymunedau i weld a allent gymryd rhan neu ychwanegu cydnerthu i'w rhaglen, er enghraifft, cynghorau cymuned, grwpiau Gwarchod Cymdogaeth, cymdeithasau trigolion, Clwb y Llewod / Rotari, cymdeithas rhieni-athrawon ysgol, grwpiau ieuenctid ac ati.

Gallwch gynnal cyfarfod agored ble gall pobl drafod eu blaenoriaethau ar gyfer y cynllun ac adnabod pwy sydd â diddordeb mewn cynorthwyo i greu'r cynllun.

Efallai y gall uned cynllunio argyfwng eich awdurdod lleol eich cynorthwyo i ddarganfod a oes mentrau cydnerthu cymunedol eisoes yn eu lle ai peidio, (er mae hyn yn fenter newydd).

# Grwpiau Argyfwng y Gymuned

Gall y bobl yn eich cymuned sydd eisiau cymryd rhan ffurfio Grŵp Argyfwng y Gymuned i fynegi'r ymdrechion parod yn erbyn argyfwng yn eich cymuned. Gall hwn fod yn grŵp newydd neu gallwch adeiladu ar grŵp sydd eisoes yn bodoli yn y gymuned.

Efallai y byddwch yn dymuno penodi Cydlynydd Argyfwng y Gymuned (a dirprwy) ar gyfer eich cymuned. Mae'r cydlynydd yn cymryd rôl arweiniol wrth drefnu a datblygu gwaith y Grŵp Argyfwng y Gymuned ac yn cynorthwyo i gynnal cymhelliant a diddordeb yn eu cymuned. Dylai pob aelod parhaol o'r grŵp feddu ar wybodaeth ddigonol a sgiliau cymunedol i weithredu fel arweinyddion dros dro.

Mae'r cydlynydd hefyd yn gweithredu fel pwynt cyswllt rhwng Grŵp Argyfwng y Gymuned ac ymatebwyr argyfwng lleol. Gall Cydlynydd Argyfwng y Gymuned fod yn aelod etholedig o'r cyngor neu gall weithio'n agos gydag aelodau etholedig.

Efallai y byddwch hefyd eisiau adnabod aelodau arbenigol i ddod â gwybodaeth a sgiliau arbenigol i'r grŵp, unai fel cyfranwyr parhaol i'r grŵp neu'n ad hoc, e.e. sgiliau meddygol neu filfeddygol, gofal bugeiliol, adeiladu, logistaidd, cyfathrebu ac ati. Os nad ydynt yn aelodau parhaol o'r grŵp, bydd yr aelodau arbenigol hyn yn cael eu tynnu o restr gyfrinachol a gaiff ei darparu gan aelodau sefydlog. (Dylid gofyn caniatâd unigolion i gynnwys eu manylion er osgoi trafferth am ddiogelwch data. Ni ddylai cynnwys gwybodaeth gyhoeddus, megis hyn mewn cyfarwyddiadur teleffon cyhoeddedig, peri trafferth.) Dylid diweddaru'r wybodaeth yn rheolaidd.

Dylid rhestru manylion cyswllt Grŵp Ymateb y Gymuned yn y prif gynllun ynghyd â'u rôl a'u cyfrifoldebau.

Unwaith y bydd y tîm wedi'i ddewis dylid mynd ati i greu'r cynllun.

# Casglu Gwybodaeth

## Deddf Diogelu Data 1998

Os ydych yn cadw ac yn defnyddio gwybodaeth am bobl e.e. enwau a chyfeiriadau, mae angen cadw at ofynion Deddf Diogelu Data 1998.[5]

Yn fras, mae hyn yn golygu:

1. Cael caniatâd pobl ar gyfer cadw eu manylion;
2. Sicrhau bod y wybodaeth yma'n ddiogel e.e. trwy gyfyngu mynediad, neu cadw dan glo;
3. Sicrhau bod y wybodaeth yn gywir e.e. trwy ddiweddaru manylion cyswllt yn rheolaidd;
4. Peidio â chadw gwybodaeth yn hirach nag sydd angen e.e. os nad oes arnoch angen y wybodaeth bellach, yna dylid ei dinistrio/dileu mewn ffordd ddiogel.

## Manylion Cyswllt Pwysig

Dylai'r cynllun gynnwys dwy restr o fanylion cyswllt ar gyfer unigolion, sefydliadau a swyddogion a all ddarparu cefnogaeth neu wybodaeth pe bai argyfwng.

Bydd y rhestr gyntaf yn cynnwys enwau a rhifau sydd eisoes yn y parth cyhoeddus megis yr heddlu, y gwasanaeth tân, meddygon a chwmnïau gwasanaethau ac ati.

Bydd gan yr ail restr ddosbarthiad cyfyngedig a dylai gynnwys, manylion cyswllt nad ydynt ar gael yn gyhoeddus, e.e. aelodau'r gymuned sydd wedi cytuno i gynorthwyo wrth ymateb i ddigwyddiad ac sy'n fodlon i'w manylion (data personol) fod ar gael.

Pe byddai argyfwng yn digwydd byddai rhestr o fanylion cyswllt cyfredol yn amhrisiadwy. Dylai'r holl fanylion cyswllt gael eu gwirio a'u diweddaru'n rheolaidd.

5 *Deddf Diogelu Data 1998*: www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/29/contents

## Defnyddio Gwybodaeth Leol a Chanfod Pobl Fregus.

Mae'n bwysig sicrhau y cysylltir â phobl unig neu fregus i weld a oes angen cymorth arnynt yn ystod argyfwng. Mae gan sefydliadau ac unigolion megis swyddogion cynllunio argyfwng yr Awdurdod Lleol, gwirfoddolwyr Y Groes Goch neu Wasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched (WRVS) ynghŷd â llawer o bobl eraill systemau ac adnoddau i gynorthwyo pobl i ymateb a dod atynt eu hunain wedi argyfyngau. Nid oes modd i'r grwpiau hyn benderfynu beth yn union mae unigolion eisiau a'i angen, ac nid oes modd iddynt ganfod pwy yn eich cymuned all fod yn fregus mewn argyfwng bob amser, yn enwedig y rhai sydd heb dderbyn cefnogaeth yn flaenorol. Mae hyn yn gofyn am wybodaeth leol a'ch cymorth chi.

## Pobl Fregus

Gall argyfyngau wneud unrhyw un yn fregus a gwneud bywyd yn anodd i'r rhai sydd eisoes yn fregus. Bydd angen i'r ymatebwyr argyfwng lleol gynorthwyo'r rhai gyda'r angen mwyaf yn gyntaf, a byddai'n gymorth iddynt pe bai'r Grŵp Argyfwng Cymunedol yn ymwybodol o'r rhai yn eu cymunedau a allai fod yn fregus mewn argyfwng a ble maent yn byw. Bydd gan y sefydliadau lleol syniad da o'r bobl neu'r cymunedau bregus hefyd. Efallai yr hoffech ystyried cadw rhestr o'r sefydliadau hyn. Efallai y bydd y Grŵp Argyfwng y Gymuned yn dymuno sefydlu 'Rhwydwaith Cymydog Da' ble gall y gymuned adnabod pobl a allai fod mewn perygl. (Nodwch y gall rhai bod yn wyliadwrus am dderbyn cynnig/help gan bobl nad ydynt yn adnabod ac yn ymddiried ynddynt, gan fod rhai drwg ewyllys yn gwneud camddefnydd o'r fath sefyllfa.)

Mae'n bosib y bydd safleoedd yn y gymuned, megis cartrefi gofal hefyd angen cefnogaeth ychwanegol pe bai argyfwng yn digwydd a dylid eu cynnwys hwy hefyd.

Mae'n bwysig nodi y gall pobl ddod yn fregus ar unrhyw adeg yn eu bywyd a gall pawb fod yn fregus mewn gwahanol amgylchiadau. Mae bod yn fregus yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl a grwpiau. Gall bregusrwydd amrywio yn eu hyd.

Gall enghreifftiau o bobl/grwpiau bregus yn yr ardal gynnwys:

# pobl sydd wedi cael afiechyd yn ddiweddar neu yn dioddef cyflwr meddygol arbennig;
# pobl heb fynediad i gludiant;
# pobl gyda symudedd cyfyngedig;
# pobl a allai brofi anhawster i ddeall gwybodaeth;
# rhai mewn oed sydd gydag anhawster; a
# grwpiau dros dro megis ymwelwyr neu gymunedau teithiol.

Unwaith eto, gall gwybodaeth am bobl fregus fod yn sensitif. Dylid cadw unrhyw wybodaeth a gesglir mewn fformat mynediad cyfyngedig, sy’n cydymffurfio â gofynion deddf. Ni ddylai fod ar gael yn hawdd nes bydd ei hangen gan y sawl sy’n ymateb i argyfwng. Efallai y byddai’n well cadw gwybodaeth am y sefydliadau sy’n cadw’r data yn hytrach na manylion yr unigolion bregus, (a fyddai angen ei diweddaru’n rheolaidd beth bynnag).

## Adnabod a pharatoi ar gyfer risgiau

Gellir diffinio **risg** fel cyfuniad o’r tebygolrwydd o ddigwyddiad yn cymryd lle a chanlyniadau’r digwyddiad hwnnw.

Mae’n bwysig bod yn ymwybodol o’r peryglon a allai effeithio ar eich cymuned a deall sut y gallent effeithio arnoch chi er mwyn gwella cydnerthedd eich cymuned. Dylai unigolion a chymunedau baratoi ar gyfer y peryglon y maen nhw’n teimlo sy’n berthnasol i’w hardal.

Mae eich ymatebwyr argyfwng lleol yn cyfarfod yn rheolaidd fel Fforwm Lleol Cymru Gydnerth (LRF). Mae’r fforwm hwn yn cydlynu’r cynllunio ar gyfer argyfyngau sy’n effeithio ar eich ardal leol ac mae ganddynt ddyletswydd i gyhoeddi Cofrestr Risgiau Cymunedol yn dangos pa fygythiadau a pheryglon lleol sydd wedi’u hadnabod yn eich ardal a’u heffaith bosib.

Mae Llywodraeth Brydain yn asesu peryglon naturiol a bygythiadau maleisus a allai effeithio ar y DU yn rheolaidd. Caiff hyn ei gyhoeddi yn y Gofrestr Risgiau Cenedlaethol. Gallwch ddefnyddio’r wybodaeth hon ynghyd â’ch Cofrestr Risgiau Cymuned leol i ystyried bygythiadau a pheryglon posib i’ch ardal leol a’u heffeithiau. (Gweler ‘Gwybodaeth i’r Gymuned ar Risgiau yng

Nghymru' ar safle we http://wales.gov.uk/resilience/home . [wedi Ebrill 2012])

Dylech hefyd ddefnyddio gwybodaeth leol a cheisio adnabod risgiau eraill yn eich ardal leol nad ydynt wedi'u cynnwys yn eich Cofrestr Risgiau Cymuned. Er enghraifft, a oes gennych gwrs dŵr sy'n gorlifo'n rheolaidd, neu ffordd leol na ellir ei defnyddio mewn tywydd garw?

## Sgiliau cymunedol ac adnoddau

Unwaith y bydd eich cymuned yn ymwybodol o'r risgiau efallai y bydd angen paratoi ar eu cyfer. Mae'n bwysig ystyried pa sgiliau, adnoddau ac offer sydd gan eich cymuned y gellid eu defnyddio, pe bai angen, yn ystod neu ar ôl argyfwng.

Efallai y byddwch yn dymuno asesu sgiliau ac adnoddau presennol eich cymuned o dan y categorïau a ganlyn:

### Gwirfoddolwyr

Mae natur ddigymell yn perthyn i wirfoddoli gan amlaf ac mae llawer o gymunedau ac unigolion yn cynorthwyo ei gilydd yn awtomatig yn ystod cyfnodau o angen. Fodd bynnag, fel rhan o'ch cynllunio gallwch siarad ag unigolion a grwpiau yn eich cymuned a gofyn a fyddent yn barod i wirfoddoli yn ystod argyfwng a pha sgiliau, offer neu adnoddau gellid eu defnyddio. Efallai y bydd angen i wirfoddolwyr posib dderbyn caniatâd gan eu cyflogwr i sicrhau y gellid eu rhyddhau pe bai argyfwng yn codi.

Efallai y byddwch hefyd yn dymuno ystyried siarad â grwpiau lleol presennol i weld a fyddai eu gwirfoddolwyr neu eu cysylltiadau hwy yn barod i helpu mewn argyfwng.

Mae'n bwysig sicrhau eich bod yn cadw cysylltiad ac yn cynnwys gwirfoddolwyr wrth gynllunio argyfwng. Efallai y byddech yn dymuno eu cynnwys wrth ymarfer eich cynllun.

Mae angen i aelodau'r gymuned weithredu'n ddiogel a pheidio â rhoi eu hunain nac eraill mewn perygl wrth ymateb i argyfwng.

## Man Cyfarfod

Da fyddai adnabod o le y gall y Grŵp Argyfwng Cymunedol gweithredu yn ystod digwyddiad. Gorau yw adnabod mwy nag un man posib ac i beidio dewis lleoliad sy'n debyg bod angen ei defnyddio gan wasanaethau sy'n ymateb i'r digwyddiad, (e.e. ystafell rheoli neu ganolfan gorffwys).

## Peiriannau, offer a chyfarpar

Ystyriwch pa beiriannau, offer a chyfarpar efallai y bydd eu hangen mewn argyfwng gyda'ch Grŵp Argyfwng Cymunedol. Efallai bod gan eich cymuned bobl a allai ddarparu peiriannau, offer a chyfarpar mewn argyfwng, e.e. llif gadwyn, generadur neu gloddiwr ac sy'n cymwys, medrus ac yn barod i'w defnyddio.

## Cerbydau a chychod

Darganfyddwch pa gerbydau a/neu gychod a ellid eu defnyddio gan y gymuned leol a sut y gellid cael atynt mewn argyfwng. Mae'n bwysig sicrhau bod perchenogion cerbydau yn drwyddedig ac wedi'u hyswirio i ddefnyddio eu cerbydau yn y modd hwn. Efallai y gall y Groes Goch cynnig cerbyd 4x4 os nad yw eu hadnoddau wedi eu addo i ddefnydd gan y gwasanaethau ymateb.

## Cyflenwadau

Mewn argyfwng bydd eich cymuned angen cyflenwadau megis deunyddiau adeiladu, neu fwyd a dŵr a all fod yn anodd eu cael. Dylai'r Grŵp Argyfwng Cymunedol ystyried siarad â chwmnïau a chyflenwyr lleol a allai fod yn barod i ddarparu'r rhain, neu mewn modd arall noddi neu gefnogi'r gweithgareddau. Os caiff cytundeb ysgrifenedig ei gwneud rhwng eich cymuned a'r cyflenwr, atodwch hwn i'ch Cynllun Argyfwng Cymunedol.

## Yswiriant a iechyd a diogelwch

Wrth feddwl am sut y gall aelodau'r gymuned helpu a'r asedau a'r adnoddau y gallwch eu defnyddio, dylech feddwl am faterion yswiriant.

Mae llawer o gymunedau yn gweld yswiriant ac atebolrwydd fel rhwystr wrth baratoi eu cymuned at argyfyngau. Er bod atebolrwydd yn fater i'r llysoedd benderfynu, mae gofyn cael synnwyr cyffredin er mwyn helpu eich gilydd.

Peidiwch â rhoi eich hun nac eraill mewn perygl wrth baratoi neu ddefnyddio eich cynllun.

Mae cymunedau wedi mynegi pryder ynglŷn â chael yswiriant priodol ac yswiriant cyfreithiol ar gyfer eu trefniadau argyfwng cymunedol, yn enwedig wrth ddefnyddio asedau megis canolfannau cymuned a neuaddau pentref fel canolfannau gorffwys neu ddefnyddio cerbydau fel rhan o ymateb cymunedol. Mae'r Llywodraeth yn gweithio â'r diwydiant yswiriant ac aelodau'r gymuned i archwilio materion yswiriant ac atebolrwydd ar gyfer amrywiaeth o sefyllfaoedd argyfwng cymunedol a bydd yn datgan y darganfyddiadau yn gyhoeddus. Mae cymorth ar faterion yswiriant ar gael ar www.abi.org.uk.

## Darparu arian ac adnoddau

Nid oes arian wedi'u neilltuo'n benodol ar gyfer y Rhaglen Cydnerthu Cymunedol, ond darperir arweiniad ar sut i gael mynediad at opsiynau ariannu i gymunedau sy'n ceisio cymryd rhan o fewn y ddogfen *Preparing for Emergencies – Guide for Communities*. Nid oes angen i gymunedau fuddsoddi symiau arwyddocaol o arian er mwyn bod yn barod. Er enghraifft, mae rhai cymunedau wedi gwario uchafswm o £200 ar offer ar gyfer bocs argyfwng cymunedol. Gallech ofyn a yw busnes lleol yn fodlon cynnig noddiant neu gymorth i chi.

Y buddsoddiad gwerthfawr yn y broses hon yw’r amser a roddir gan aelodau’r gymuned i ystyried beth yw’r ffordd orau i baratoi eu hunain. Mae aelodau’r gymuned wedi egluro mai gwybodaeth a chefnogaeth sydd eu hangen gan y Llywodraeth ac ymatebwyr argyfwng lleol yn hytrach na buddsoddiadau mawr neu arian grant.

## Nodweddion allweddol cymuned gydnerth

Mae'r rhan hon yn amlinellu rhai o'r nodweddion allweddol tebygol i'w gweld mewn cymunedau cydnerth:

Mae pobl mewn cymunedau cydnerth yn defnyddio'u sgiliau, eu gwybodaeth a'u hadnoddau i baratoi ar gyfer canlyniadau argyfyngau neu ddigwyddiadau mawr ac i ymdopi â hwy.

Maent yn addasu eu sgiliau dyddiol ac yn eu defnyddio mewn amgylchiadau eithriadol.

Mae pobl mewn cymunedau cydnerth yn ymwybodol o'r risgiau all effeithio arnynt. Maent yn deall beth yw'r cysylltiad rhwng risgiau sy'n cael eu hasesu ar lefel genedlaethol a'r risgiau hynny yn eu hardal leol, ac yn deall sut all hyn eu gwneud yn fregus. Mae hyn yn eu helpu i weithredu i baratoi ar gyfer canlyniadau argyfyngau.

Mae gan y gymuned gydnerth bencampwr, rhywun sy'n cyfathrebu manteision cydnerthu'r gymuned i'r gymuned ehangach. Mae pencampwyr cydnerthu cymunedau yn defnyddio'u sgiliau a'u brwdfrydedd i gymell ac annog eraill i gymryd rhan, ac i barhau i gymryd rhan, a'r rhain yw'r bobl y mae'r gymuned yn ymddiried ynddynt.

Mae cymunedau cydnerth yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaethau brys, eu hawdurdod lleol a mudiadau perthnasol eraill cyn argyfwng, yn ystod argyfwng ac ar ôl argyfwng. Mae'r perthnasau hyn yn sicrhau bod gweithgareddau cydnerthu cymunedol yn ategu gwaith y gwasanaethau brys, ac y gellir eu cyflawni'n ddiogel.

Mae cymunedau cydnerth yn cynnwys unigolion cydnerth sydd wedi gweithredu i wneud eu cartrefi a'u teuluoedd yn fwy cydnerth. Mae unigolion cydnerth yn ymwybodol o'u sgiliau, eu profiad a'u hadnoddau a sut mae defnyddio'r rhain i gael yr effaith orau mewn argyfwng.

Mae aelodau cymunedau cydnerth yn cymryd rhan weithgar mewn dylanwadu a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae ganddynt ddiddordeb yn eu hamgylchedd ac maent yn gweithredu er lles y gymuned er mwyn amddiffyn asedau a chyfleusterau.

## Cydnerthu Cymunedol Llwyddiannus

Dylai’r cymunedau sy'n gyfrifol am y broses benderfynu ar beth yw cydnerthu cymunedol llwyddiannus. Nid yw’r Llywodraeth mewn lle priodol i benderfynu beth yw llwyddiant ar lefel leol; mae'n rhaid i'r gymuned leol sydd berchen y broses a'r deilliannau benderfynu ar hyn. Mae’r awgrymiadau o sut i asesu a yw’r gwaith paratoi a wneir gan gymunedau yn effeithiol ai peidio yn cynnwys rhoi ystyriaeth i’r cwestiynau a ganlyn:

- Ydi’r gymuned yn gwybod digon am beryglon i’w cymuned a pha mor agored ydynt hwy i’r peryglon hynny?
- Ydi’r gymuned yn teimlo’n hyderus ynghylch ei gallu i ymdopi ac addasu pe bai'r bygythiadau hyn yn cael eu gwireddu?
- Ydi’r gymuned yn siarad gyda’r ymatebwyr argyfwng lleol sydd â’r dasg o ddarparu’r ymateb proffesiynol mewn argyfwng ac yn siarad gyda darparwyr y sector gwirfoddol?

Y prawf mwyaf o gydnerthu cymunedol yw sut y bydd cymunedau’n ymdopi yn ystod argyfwng, yn enwedig argyfyngau sy'n peri effeithiau sylweddol, yn ogystal â sut y maent yn ymateb i'r argyfyngau hynny ac yn adfer y gymuned wedi hynny. Yn aml mae argyfyngau yn peri dinistrio eiddo ac isadeiledd, ac weithiau’n arwain at golli bywydau.  Bydd effaith emosiynol argyfyngau yn effeithio ar sut y mae cymuned yn canfod ei hadferiad ei hun , yn ogystal â’r help y mae’n ei derbyn. Felly, mae angen i unrhyw fesurau llwyddiant ystyried effaith emosiynol argyfyngau ar y sawl sy’n cael eu heffeithio a bydd hyn yn pennu pa mor llwyddiannus fydd yr ymateb a’r adferiad.

# Pa wybodaeth arall sydd ar gael am Gydnerthu Cymunedol?

Mae gwybodaeth ar gael ar wefan Swyddfa'r Cabinet http://www.cabinetoffice.gov.uk/content/community-resilience.

Mae'r ddogfen ***Preparing for Emergencies – Guide for Communities*** yn eich cyflwyno i'r camau cyntaf y dylid eu dilyn i fod wedi paratoi'n well i ymdrin ag argyfwng.
Mae'n defnyddio astudiaethau achos i egluro'r manteision mae cymunedau sydd eisoes yn ymwneud â chydnerthu cymunedol yn eu profi. Mae'n debyg y byddwch yn gweld y ddogfen hon yn ddefnyddiol iawn os nad ydych yn gyfarwydd â chydnerthu cymunedol ac eisiau gwybod mwy amdano.

Mae'r ***Community Emergency Plan Toolkit*** yn amlinellu nifer o awgrymiadau ymarferol ar gyfer sut mae dechrau magu cydnerthedd eich cymuned. Mae hyn yn cynnwys cynllun templed generig y mae modd i chi ei addasu a'i ddefnyddio'n lleol. Mae'n debyg y byddwch yn gweld y ddogfen hon yn ddefnyddiol iawn os ydych eisiau gweld pa gamau ymarferol y gellid eu dilyn i greu cynllun argyfwng cymunedol.

Anelir y tudalennau gwe, ***Preparing for Emergencies***, at unigolion, teuluoedd, cymunedau a busnesau sydd eisiau dod o hyd i fwy o wybodaeth ynghylch sut y gallent baratoi ar gyfer argyfyngau. Bwriad y tudalennau yw ateb cwestiynau am gydnerthu unigol a chydnerthu cymunedol a chynyddu ymwybyddiaeth o risgiau ac o fod yn agored i risg. Maent hefyd yn amlinellu rhai camau hawdd i chi eu dilyn i wella pa mor barod yw eich aelwyd. Mae'n debyg y byddwch yn gweld y ddogfen hon yn ddefnyddiol iawn os ydych eisiau mwy o wybodaeth gyffredinol am baratoi ar gyfer argyfwng.

# TEMPLED CYNLLUN ARGYFWNG Y GYMUNED

Mae'r templed hwn wedi'i ddylunio er mwyn i chi ei ddefnyddio i lenwi manylion ynghylch eich paratoadau ar gyfer argyfwng yn y gymuned.
Rhoddir enghreifftiau i'ch cynorthwyo i gwblhau'r templed. Gellir gweld nodiadau manwl ar sut i greu cynllun yn y ddogfen *'Community Emergency Plan Toolkit'* yn www.cabinetoffice.gov.uk/communityresilience

# Cynllun Argyfwng Cymuned [Nodwch enw'r gymuned yma]

**Diweddarwyd y cynllun: DD/MM/BBBB**

**Awdur (on): ……………………………..**

| **Os ydych mewn perygl nawr, galwch 999** |
|---|

## Rhestr ddosbarthu’r cynllun

| Enw | Swydd | Rhif ffôn/cyfeiriad e-bost | Dosbarthwyd |
|---|---|---|---|
| Ms Epo | Swyddog Cynllunio Argyfwng yr Awdurdod Lleol | 020 1234 5678 | 01/01/2011 |
| Miss Flood | Warden Llifogydd Lleol | *llifogydd@unrhywle.uk* | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Rhestr ddiwygio’r cynllun

| Dyddiad y diwygio | Dyddiad yr adolygiad nesaf | Manylion y newidiadau | Newidiwyd gan |
|---|---|---|---|
| DD/MM/BB | DD/MM/BB | Wedi ychwanegu atodiad X | Cydlynydd Argyfwng y Gymuned |
| DD/MM/BB | DD/MM/BB | Wedi ychwanegu aelodau Tîm Argyfwng Cymuned | Cydlynydd Argyfwng y Gymuned |
| DD/MM/BB | DD/MM/BB | Diweddaru manylion gwirfoddolwyr | Cydlynydd Argyfwng y Gymuned |
| | | | |
| | | | |

# NODIADAU CANLLAW

## Pwyntiau Allweddol

Dylid cadw'r pwyntiau allweddol a ganlyn mewn cof wrth gwblhau'r templed:

a. Nid yw'r ddogfen hon yn awgrymu nac yn bwriadu i gymunedau, trefi, pentrefi neu unrhyw ran o'r gymuned (y'i gelwir i gyd yn 'gymuned') gael unrhyw rôl ffurfiol wrth ymateb i argyfwng nac yn yr adferiad ar ôl argyfwng.
b. Ni awgrymir na bwriedir i'r gymuned gael rôl i gefnogi'r gwasanaethau brys yn eu hymateb i ddigwyddiadau.
c. Cyfrifoldeb gwirfoddol y gymuned yw cwblhau'r templed, yn rhannol neu'n llawn, ac nid oes rheidrwydd i wneud hynny.
ch. Er nad oes gan y gymuned leol unrhyw rôl ffurfiol, ceir cydnabyddiaeth eang o'r gwerth o gynllunio o'r lefel ymarferol isaf bosib i fyny er mwyn helpu i ymdopi ag argyfyngau lleol posib.
d. Bydd yr angen i gwblhau unrhyw ran o'r templed, neu'r gofyn i gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol yn dibynnu ar natur a chyfansoddiad y gymuned a'r peryglon tebygol.
dd. Bydd Uned Cynllunio Argyfwng Cyngor Gwynedd yn darparu cyngor a chymorth yn ôl y gofyn, yn ôl y gallu ac yn ôl yr hyn sy'n berthnasol, i gefnogi cwblhau'r cynllun.
e. Nid yw Uned Cynllunio Argyfwng Cyngor Gwynedd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gynnwys y templed wedi'i gwblhau.
f. Anogir y gymuned leol i roi copi o'r templed wedi'i gwblhau i Uned Cynllunio Argyfwng Cyngor Gwynedd.
ff. Dylid pasio unrhyw addasiadau sylweddol i'r templed gorffenedig, yn enwedig newidiadau mewn manylion cyswllt, i Uned Cynllunio Argyfwng Cyngor Gwynedd.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Asesiad risg lleol | 22 |
| Asesiad sgiliau ac adnoddau lleol | 23 |
| Adnabod lleoliadau allweddol gyda’r gwasanaethau brys i’w defnyddio fel mannau diogel | 24 |
| Rhestr cysylltiadau mewn argyfwng | 25 |
| Enghraifft o goeden ffonio | 26 |
| Rhestr o fudiadau cymunedol allai fod yn gymorth wrth adnabod pobl neu gymunedau bregus mewn argyfwng | 27 |
| Sbardun gweithredu | 27 |
| Camau cyntaf mewn argyfwng | 28 |
| Rhaglen cyfarfod cyntaf y Grŵp Argyfwng Cymuned | 29 |
| Cytuno gyda’r ymatebwyr brys ar gamau gweithredu pe bai angen gwagio mannau | 30 |
| Trefniadau amgen ar gyfer cadw mewn cysylltiad os nad yw’r ffyrdd arferol o gyfathrebu’n gweithio | 30 |
| Map o'r gymuned | 31 |

## Asesiad risg lleol

| Risgiau | Effaith ar y gymuned | Beth all y Grŵp Argyfwng y Gymuned wneud i baratoi? |
|---|---|---|
| Enghraifft:<br>Gall yr afon sy'n rhedeg trwy'r pentref orlifo | • Llifogydd ar y strydoedd lleol<br>• Mynediad i neuadd y dref yn cael ei rwystro<br>• Difrod i eiddo | • Annog preswylwyr i wella amddiffynfeydd llifogydd eu cartrefi<br>• Gweithio gydag ymatebwyr argyfwng lleol i weld a oes modd helpu i ddosbarthu rhybuddion llifogydd ac i wagio pobl a sefydlu canolfan orffwys, pe bai angen.<br>• Darganfod pa amddiffyniadau llifogydd sy'n bodoli, neu sy'n cael eu cynllunio yn yr ardal. |
| | | |
| | | |

## Asesiad sgiliau ac adnoddau lleol

| Sgil/Adnodd | Pwy? | Manylion cyswllt | Lleoliad | Pa bryd sydd ddim yn gyfleus? |
|---|---|---|---|---|
| Rhywun sydd wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf | Sandy Fortman | 01700 5668xx | 17 Stryd Isaf | Fel arfer, gall adael ei waith o fewn awr |
| perchennog/gyrrwr cerbyd gyriant pedair olwyn | Bob Southwold | 01700 5648xx | Modurdai yng nghefn y Stryd Fawr | Bore Dydd Mawrth (eisoes yn gwirfoddoli) |
| Perchennog llif gadwyn (Meddyg Coed) | Simon Chalmers | 01700 5605xx | Tirweddu Simon – 4 Iard Teras | Bydd angen teithio o'r safle |
| Cyflenwadau bwyd/dŵr | Siop y pentref | 01700 5608xx | 2 Y Stryd Fawr | Siop ar gau ar Ddydd Mercher, ond gellir ffonio'r perchennog |
| | | | | |
| | | | | |

**Adnabod lleoliadau allweddol gyda'r gwasanaethau brys i'w defnyddio fel mannau diogel**


| Adeilad | Lleoliad | Defnydd arfaethedig mewn argyfwng | Manylion cyswllt deilydd yr allweddi |
|---|---|---|---|
| Enghraifft: Neuad yr Eglwys | 1 Sgwâr yr Eglwys | Canolfan orffwys / man diogel | Colin Molesworth – Warden<br>07749 8557xx |
| Yr Ysgol Uwchradd | Stryd yr Ysgol | Canolfan orffwys / man diogel | Jane Shulman – Gofalwraig<br>07749 8655xx |
| | | | |
| | | | |

## Rhestr cysylltiadau mewn argyfwng

<table>
<tr><td rowspan="5">Ffotograff</td><td>Enw: Paul Ridgeway</td></tr>
<tr><td>Teitl: Cydlynydd Argyfwng Cymunedol</td></tr>
<tr><td>Rhif Ffôn 24 awr: 07700 7785xx</td></tr>
<tr><td>E-bost: xx@xx.xx</td></tr>
<tr><td>Cyfeiriad: 2 Ffordd yr Orsaf</td></tr>
<tr><td rowspan="5">Ffotograff</td><td>Enw</td></tr>
<tr><td>Teitl:</td></tr>
<tr><td>Rhif Ffôn 24 awr:</td></tr>
<tr><td>E-bost:</td></tr>
<tr><td>Cyfeiriad:</td></tr>
</table>

## Enghraifft o goeden ffonio

Mae’r goeden ffonio yn gweithredu fel pyramid, gyda'r cydlynydd ar y brig yn gwneud yr alwad gyntaf i ddau neu fwy o bobl. Yn eu tro, mae hwythau’n galw rhestr benodol o bobl, ac yn y blaen, nes bod y goeden i gyd wedi derbyn yr alwad. (Os nad oes modd cael gafael ar y bobl, bydd angen i’r person sy’n galw weithio’i ffordd i lawr i’r haen nesaf).



## Rhestr o fudiadau cymunedol allai fod yn gymorth wrth adnabod pobl neu gymunedau bregus mewn argyfwng

| Mudiad | Enw a rôl y person cyswllt | Rhif Ffôn |
|---|---|---|
| Gofal Unrhyw Le | Person cyswllt ar ddyletswydd | 07800 555xxxx |
| | | |
| | | |

## Sbarduno’r Gweithredu

[Defnyddiwch y gwagle hwn i gofnodi manylion sut y bydd eich cynllun yn cael ei sbarduno. Dylech gynnwys manylion sut y bydd y cynllun yn cael ei sbarduno o ganlyniad i alwad ffôn gan y gwasanaethau brys, yn ogystal â sut y bydd eich cymuned yn penderfynu gweithredu'r cynllun eich hunain os nad yw'r gwasanaethau brys ar gael]

1. Pan dderbynnir rhybudd llifogydd
2. Pan mae’r Heddwas Rathbone yn ffonio’r cydlynydd.

**Camau cyntaf mewn argyfwng**

**[Defnyddiwch y gwagle hwn i gofnodi'r camau sydd i'w dilyn unwaith y mae cynllun wedi'i roi ar waith]**

| | Cyfarwyddiadau | Ticiwch |
|---|---|---|
| 1 | Galwch 999 (oni bai fod hyn wedi digwydd eisoes) | |
| 2 | Sicrhewch nad ydych mewn perygl nawr eich hunan / hunain | |
| 3 | Cysylltwch â'r Grŵp Argyfwng y Gymuned a chyfarfod i drafod y sefyllfa | |
| 4 | | |
| 5 | | |
| 6 | | |
| 7 | | |
| 8 | | |
| 9 | | |
| 10 | | |

# Rhaglen cyfarfod cyntaf y Grŵp Argyfwng y Gymuned

Dyddiad::
Amser:
Lleoliad:
Yn bresennol:

**1. Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?**

**Lleoliad yr argyfwng. A yw'n agos i:**

- ysgol?
- adal fregus?
- brif lwybr mynediad?
- Math yr argyfwng:
- A yw'n peryglu bywydau?
- Ydi'r argyfwng wedi effeithio ar drydan, nwy neu ddŵr?

**A yw'n effeithio ar bobl fregus?**

- Yr henoed
- Teuluoedd â phlant

**Pa adnoddau sydd eu hangen arnom?**

- Bwyd?
- Cerbydau sy'n gyrru oddi ar y ffordd?
- Blancedi?
- Lloches?

**2. Sefydlu cysylltiad â'r gwasanaethau brys**

**3. Sut allwn ni gefnogi'r gwasanaethau brys?**

**4. Beth allwn ni weithredu'n ddiogel?**

**5. Pwy sy'n mynd i arwain ar y camau y cytunir arnynt?**

**6. Unrhyw faterion eraill?**

## Cytuno gyda'r ymatebwyr brys ar gamau gweithredu pe bai angen gwagio mannau

[Defnyddiwch y gwagle hwn i gofnodi manylion y camau gweithredu y gallwch eu cymryd i fod yn gymorth i'ch awdurdod lleol pe bai angen gwagio mannau yn eich cymuned.]

1. Bod yn gymorth i'r heddlu/awdurdod lleol wrth guro drysau
2. Rhoi gwybod i'r gwasanaethau brys pwy all fod angen cymorth ychwanegol i adael eu cartrefi

## Trefniadau amgen ar gyfer cadw mewn cysylltiad os nad yw'r ffyrdd arferol o gyfathrebu'n gweithio

| Math y Cyfathrebu: | Enw'r cyswllt | Lleoliad |
|---|---|---|
| Radio | RAYNET – John Springston | 22 Lôn Goed |
| | | |

# MAP O'R GYMUNED

1. Byddai'n fuddiol cynnwys map, ar raddfa fechan, o'r gymuned yn y cynllun hwn a sicrhau bod map Arolwg Ordnans neu debyg ar gael ar raddfa fwy pe bai argyfwng.

2. Nodwch y wybodaeth a ganlyn ar y map os yw ar gael, gan ddefnyddio eich allwedd eich hun i'r symbolau a ddefnyddir gan ddangos beth yw'r allwedd hwnnw ar y map neu ar daflen gyfeirio ar wahân:

a. Y prif lwybrau i'r gymuned; e.e. ffyrdd a rheilffyrdd.
b. Lleoliad(au) pencadlys rheoli argyfwng y gymuned.
c. Lleoliadau arfaethedig ar gyfer glanio hofrenyddion (h.y. ble nad oes coed, adeiladau, llinellau pŵer na rhwystrau eraill).
ch. Lleoliadau arfaethedig ar gyfer llety argyfwng yn y gymuned.
d. Lleoliadau ble gall y gwasanaethau brys sefydlu lleoliad gweithredu yn y gymuned (e.e. swyddfa a storfa), ond nodwch pwynt 'ng' isod, (lle nad yw'r gwasanaethau'n gweithio).
dd. Ysgolion, neuaddau, canolfannau chwaraeon a mannau 'ymgasglu' eraill.
e. Cartrefi gofal neu gartrefi preswyl eraill a llety gwarchod.
f. Ysbytai
ff. Llinellau pŵer trydan ac is-orsafoedd, llinellau pibellau nwy ac isadeiledd ategol (os yn hysbys).
g. Isadeiledd teleffon lleol e.e. cyfnewidfa deleffon, safleoedd mastiau ffonau symudol (os yn hysbys).
ng. Lleoliadau ble nad yw ffonau symudol na radio Amledd Uchel Iawn (VHF) yn gweithio (os yn hysbys)
h. Isadeiledd cyflenwadau dŵr, gan gynnwys ffynhonnau i ddal dŵr yfed.
i. Gwaith trin carthffosiaeth.
l. Tai gwarchod, cartrefi gyda wardeiniaid a'r tebyg.
ll. Gorsafoedd petrol/tanwydd
m. Unrhyw beryglon hysbys e.e. gwaith/storfa gemegol ar ystâd ddiwydiannol.